**LC Rhif: LC53249**

## Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Anghenion Dysgu Ychwanegol: Adolygiad o'r Fframwaith deddfwriaethol

Crynodeb o'r ymatebion i'r cais am wybodaeth i lywio'r adolygiad

14 Hydref 2025

**Trosolwg**
Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion i gais Llywodraeth Cymru am wybodaeth i lywio ei hadolygiad o fframwaith deddfwriaethol anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

**Camau i'w cymryd**
Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**
Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

**Manylion Cysylltu**
I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol
Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

e-bost: alnlegislativereview@llyw.cymru

**Copïau ychwanegol**
Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru.
Dolen i wybodaeth am yr adolygiad: Adolygiad o fframwaith deddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | LLYW.CYMRU

**@LIC_Addysg**

Facebook/AddysgCymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Digidol ISBN WG 53249
© Hawlfraint y Goron Gorffennaf 2025
LIC52414

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **3**

Cwestiwn a - Diffinio ac adnabod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 5

Cwestiwn b - Diffinio ac adnabod Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) 6

Cwestiynau c a d – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau 7

Cwestiwn e - Cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY 8

Cwestiwn f – Dyletswydd i baratoi Cynllun Datblygu Unigol (CDU) - yn cynnwys y ddyletswydd ar ysgolion, colegau addysg bellach ac awdurdodau lleol (ALl) 9

Cwestiwn g – Plant o dan oedran ysgol gorfodol – Dyletswydd ALl i gynnal CDU 10

Cwestiwn h – Plant dros oedran ysgol gorfodol - Dyletswydd ALl i gynnal CDU 11

Cwestiwn i – Pobl ifanc mewn coleg addysg bellach – Dyletswydd ar y coleg ac ALl i gynnal CDU 12

Cwestiwn j – Pobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir neu goleg addysg bellach – Dyletswyddau ar ALl 13

Cwestiwn k –Cynnwys CDU gan gynnwys ADY Adrannau 2a, 2b, 2c, 2d a Darpariaeth yn y Gymraeg 13

Cwestiwn l – Plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru ond yn cael eu haddysgu yn Lloegr 15

Cwestiwn m – Plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) 15

Cwestiwn n - Plant a phobl ifanc sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE) a phlentyn/plant sy'n derbyn gofal 16

Cwestiwn o - Rhoi'r gorau i gadw CDU 17

Cwestiwn p – Plant a phobl ifanc heb alluedd meddyliol 17

Cwestiwn q - Pontio'r ddarpariaeth AAA i ADY 18

Cwestiwn r – Gweithdrefnau a phwerau Tribiwnlys Addysg Cymru 19

Sylw 1 - Statws y Cod ADY a'r cydadwaith rhwng y Ddeddf ADY, y Rheoliadau ADY a'r Cod ADY wrth wneud penderfyniadau a chymhwyso'r gyfraith 19

Sylw 2 - Unrhyw gamgymhariadau ymddangosiadol rhwng y Ddeddf ADY a'r Cod ADY, neu unrhyw ddryswch mewn perthynas ag ystyr y Cod ADY 20

Sylw 3 - Unrhyw sylwadau eraill sy'n disgyn y tu allan i'r penawdau a'r materion a godwyd uchod 20

Y camau nesaf 21

Atodiad 1 22

Atodiad 2 23

Atodiad 3 25

# Cyflwyniad

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf'), Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 a Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 yn gwneud y ddarpariaeth ar gyfer fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi pob plentyn a pherson ifanc 0-25 oed ag ADY.

Nod y fframwaith deddfwriaethol yw gwella'r gwaith o gynllunio a chyflwyno Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY), trwy ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o adnabod anghenion yn gynnar, rhoi cymorth a monitro effeithiol ar waith, ac addasu ymyriadau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

Dechreuwyd symud dysgwyr o'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ym mis Ionawr 2022. Yn dilyn dau estyniad i'r amserlen ar gyfer gweithredu, mewn ymateb i bwysau llwyth gwaith ac i greu mwy o hyblygrwydd, cafodd pob dysgwr ei symud o'r system AAA i'r system ADY erbyn 31 Awst 2025.

Ym mis Hydref 2024, mewn ymateb i dystiolaeth a phryderon bod rhai rhannau o'r fframwaith deddfwriaethol ADY yn gymhleth ac yn aneglur, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg adolygiad o'r fframwaith deddfwriaethol. Roedd yr adolygiad yn ystyried eglurder, rhwyddineb a chysondeb dealltwriaeth o'r fframwaith deddfwriaethol er mwyn llywio atebion polisi a deddfwriaethol ar feysydd o'r Ddeddf, y Rheoliadau a'r Cod a ystyriwyd yn gymhleth.

Yn gynnar yn 2025, er mwyn deall eu profiad o ddarparu'r system ADY a'r heriau ymarferol y maent yn eu hwynebu, gwahoddwyd partneriaid cyflawni a rhanddeiliaid allweddol i ddarparu gwybodaeth i lywio'r adolygiad. Cafwyd 54 o ymatebion ysgrifenedig erbyn canol Ebrill 2025. Cafwyd 50 o ymatebion yn Saesneg a phedwar yn y Gymraeg. Mae rhestr lawn o'r sefydliadau a ymatebodd i'w gweld yn Atodiad 2.

Gwahoddwyd hefyd Dribiwnlys Addysg Cymru i ddarparu gwybodaeth. Gofynnwyd i'r Tribiwnlys am ei brofiad gan ganolbwyntio ar achosion a gofrestrwyd gan y Tribiwnlys, ymholiadau a'r rhai nad ydynt yn cyrraedd apêl ddilys. Mae ei sylwadau wedi eu cyhoeddi ar wefan Tribiwnlys Addysg Cymru ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y crynodeb hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r cais am wybodaeth a hoffai ddiolch i bawb a ymatebodd. Mae'r crynodeb hwn yn amlygu'r adborth helaeth a gafwyd. Mae'r holl ymatebion wrthi'n cael eu hystyried a byddant yn llywio atebion polisi a deddfwriaethol ar feysydd yn ymwneud â'r Ddeddf, Rheoliadau a Chod ADY, ac yn llywio gwaith ansawdd a gwella parhaus i'r system ADY.

Bwriad y ddogfen hon yw darparu crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig a gafwyd a'r sylwadau a wnaed yn ystod y cais am wybodaeth. Nid yw'n ceisio cofnodi'n fanwl bob pwynt a grybwyllwyd gan yr ymatebwyr. Gofynnwyd 25 o

gwestiynau ac mae'r ymatebion i'r cwestiynau wedi'u crynhoi isod. Mae ymatebion i gwestiynau sydd â chysylltiad agos wedi'u cyfuno. Oherwydd natur testun rhydd ymatebion, gellid priodoli themâu lluosog i un ymateb, sydd wedi arwain at orgyffwrdd rhwng ymatebion i gwestiynau. Mae materion a godwyd nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cais am wybodaeth wedi'u nodi, ond nid ydynt wedi'u cynnwys fel rhan o'r crynodeb hwn o ymatebion. Mae'r cais am wybodaeth i'w weld yn Atodiad 3.

# Cwestiynau'r cais am wybodaeth

## Cwestiwn a - Diffinio ac adnabod anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Cafwyd 44 ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda llawer o'r sylwadau yn gorgyffwrdd â'r ymatebion a gafwyd i gwestiwn b.

Mynegwyd barn gymysg mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd rhai yn teimlo bod y diffiniad o fewn y Ddeddf yn glir, tra bod eraill yn teimlo ei fod yn agored i ddehongliad sy'n arwain at amrywiad rhwng lleoliadau. Roedd cytundeb cyffredinol ynghylch yr angen am ddiffiniad clir a chyson o ADY, gan fod ymatebion o'r farn bod canllawiau yn y Cod ADY a'r darpariaethau yn y Ddeddf yn gwrthddweud ei gilydd.

Roedd cytundeb cyffredinol ag egwyddorion y system ADY, ac o fanteision dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n sicrhau bod dysgwyr yn derbyn y cymorth angenrheidiol i lwyddo yn eu taith addysgol.

Roedd rhai o'r ymatebion yn tynnu sylw at anawsterau wrth ddiffinio 'anhawster sylweddol fwy i ddysgu', gan fod dehongliadau yn amrywio ar draws lleoliadau, a diffyg hyder mewn 'meincnodi' i bennu ADY. Cyfeiriwyd at y ffaith y gall y gwahaniaethau yn yr hyn y gellir ei ystyried yn 'sylweddol' arwain at heriau. Roedd ymatebion yn tynnu sylw hefyd at heriau rhagweld 'anhawster sylweddol fwy' i blant o dan oedran ysgol gorfodol.

Mae yna ganfyddiad hefyd mai 'label' ADY yw'r unig ffordd y bydd anghenion yn cael eu diwallu.

Awgrymodd ymatebwyr fod angen gwell dealltwriaeth o'r berthynas rhwng 'addasiadau rhesymol' a'r angen am gynllun datblygu unigol (CDU) ar gyfer dysgwyr anabl. Cwestiynodd rhai ymatebwyr yr angen am CDU os gellir diwallu anghenion dysgwr trwy 'addasiad rhesymol'.

Awgrymodd eraill y dylid datblygu adnodd asesu ADY safonedig er mwyn sicrhau dull cyson o adnabod a chefnogi dysgwyr.

Nodwyd bod yr amserlenni statudol ar gyfer penderfynu ar ADY yn heriol ac nad ydynt bob amser yn gyraeddadwy nac yn ymarferol ac nad ydynt yn cyd-fynd ar draws sectorau, fel iechyd ac addysg. Nodwyd hefyd nad yw'r amserlenni'n caniatáu digon o amser i dreialu gwahanol strategaethau cymorth cyn gorfod penderfynu.

Rhannodd ymatebwyr o'r sector addysg bellach y gall nifer y dysgwyr newydd sy'n cofrestru ar gyrsiau olygu bod bodloni dyddiadau cau yn anodd a bod asesu dysgwyr ar gyrsiau byr neu ran-amser yn heriol hefyd. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cynnal adolygiadau rheolaidd o benderfyniadau ynghylch a oes gan ddysgwr ADY, gan y gall anghenion cymorth amrywio rhwng gwahanol ddosbarthiadau a chyd-destunau. Yn y blynyddoedd cynnar,

mae dysgwyr yn aml yn symud lleoliadau cyn i ADY gael ei adnabod neu mae'n parhau heb ei adnabod.

Fe wnaeth ymatebion gan y sector iechyd godi pwysigrwydd sicrhau tegwch o ran cyfrifoldeb am fewnbwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) wrth adnabod ADY i bob plentyn a pherson ifanc, gan awgrymu y dylid cryfhau a safoni gwaith amlasiantaeth ledled Cymru.

Mynegwyd pryder am y ffaith nad yw penderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY yn cael eu cyfathrebu a'u cofnodi'n ffurfiol, gan fod hyn yn gadael teuluoedd heb ddealltwriaeth glir o'r broses o wneud penderfyniadau, y rhesymau dros y penderfyniad a dealltwriaeth glir o'u hawliau i apelio.

Roedd sylwadau eraill a gafwyd yn cynnwys, canfyddiad bod cynnydd yn y galw a chymhlethdod anghenion; bod angen gwella trefniadau pontio ar gyfer dysgwyr rhwng lleoliadau addysg; a galwad am fframwaith pontio ADY cenedlaethol er mwyn sicrhau bod cofnodion ADY yn cael eu trosglwyddo'n gyson ac yn amserol. Awgrymwyd hefyd fod angen arweiniad a chymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr y gallai fod angen darpariaethau ADY ar gyfer eu hanawsterau iechyd meddwl.

## Cwestiwn b - Diffinio ac adnabod darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)

Cafwyd 54 ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda llawer o'r sylwadau yn gorgyffwrdd ag ymatebion a gafwyd i gwestiwn a.

Roedd diffinio ac adnabod DDdY yn faes pryder allweddol gyda'r rhan fwyaf o ymatebion yn galw am fwy o eglurder. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai darparu terminoleg a chanllawiau clir ynghyd ag enghreifftiau a siartiau llif clir yn symleiddio'r broses o adnabod ADY a DDdY.

Roedd teimlad cyffredinol bod y diffiniad o DDdY yn anwybyddu'r ffordd y mae addysg brif ffrwd yng Nghymru yn newid ac yn datblygu. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu addasiadau i ddysgu, cyflwyno a datblygu cwricwlwm a mesurau asesu sy'n eiddo i ysgolion, sy'n her o ran dehongliad cyson o'r hyn sy'n gyfystyr â DDdY. Mae'n golygu y gall darpariaeth a wneir yn gyffredinol mewn un ysgol fod yn wahanol i'r ddarpariaeth mewn ysgol arall, sy'n ei gwneud yn anodd nodi'n glir drothwy ar gyfer darpariaeth a ystyrir yn ychwanegol yn genedlaethol.

Mae angen mwy o eglurder mewn perthynas â'r hyn sy'n cael ei ystyried yn 'ychwanegol at, neu'n wahanol i', o ran y ddarpariaeth a wneir yn gyffredinol i eraill o'r un oedran, ac eglurder ynghylch beth yw'r disgwyliadau ar gyfer yr hyn sy'n cael ei wneud/y dylid ei wneud yn gyffredinol i eraill.

Mae termau fel 'darpariaeth gyffredinol', 'darpariaeth wedi'i thargedu' a 'darpariaeth arbenigol' yn cael eu defnyddio fwyfwy ac nid ydynt yn y Ddeddf na'r Cod ADY. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid mabwysiadu'r term

‘darpariaeth gyffredinol’ er nad yw mewn deddfwriaeth. Teimlwyd bod hyn yn gwneud pethau’n fwy eglur, gan ei fod yn helpu i wahaniaethu rhwng darpariaeth ddysgu a wneir yn gyffredinol i eraill o’r un oedran a darpariaeth ychwanegol.

Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai gwella cydweithredu amlasiantaeth rhwng awdurdodau lleol (ALlau), y GIG, ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn sicrhau bod dysgwyr yn derbyn y cymorth angenrheidiol ac y byddai’n mynd i’r afael â’r datgysylltiad rhwng DDdY ysgolion a DDdY sefydliadau addysg bellach a thrwy hynny’n lleihau ansicrwydd maith i ddysgwyr a’u teuluoedd.

Mynegodd ymatebwyr yr angen hefyd am eglurder pellach ynghylch yr hyn sy’n gyfystyr â DDdY y mae’n rhaid ei sicrhau gan gyrff y GIG er mwyn sicrhau trefniadau cydweithio cyson rhwng addysg a Byrddau Iechyd.

Roedd rhai ymatebion yn galw am fwy o gefnogaeth i adnabod DDdY briodol ar gyfer dysgwyr ôl-16 i ystyried y gwahaniaethau mewn darpariaeth rhwng ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Gofynnodd eraill am fwy o eglurder ynghylch a yw cymhorthion ychwanegol i ddysgwyr anabl yn cael eu dosbarthu fel DDdY neu ‘addasiad rhesymol’. Mae llawer o ddryswch o hyd mewn perthynas â’r ddarpariaeth sy’n ofynnol i roi mynediad i’r cwricwlwm i ddysgwyr anabl.

Roedd sawl sylw yn ymwneud â DDdY ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol. Ystyriwyd bod hyn yn agored i’w ddehongli ac mae angen eglurhad rhwng ‘addysg o unrhyw fath’ a ‘gofal plant’. Roedd galwad am eglurder hefyd ynglŷn â ffrydiau cyllido ar gyfer DDdY i blant sydd o dan oedran ysgol gorfodol ac nad ydynt mewn lleoliad ysgol a gynhelir.

## Cwestiynau c a d – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (CCUHPA)

Cafwyd 29 o ymatebion cyfunol i’r ddau gwestiwn hyn.

Nododd ymatebwyr fod egwyddorion y Cod yn cyd-fynd yn glir â dull gweithredu seiliedig ar hawliau, a bod dull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi’i ymgorffori yn y Cod drwyddo draw. Mae ymarfer sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ystyried fel datblygiad cadarnhaol sy’n ystyried anghenion a dyheadau unigol, gyda ffocws ar adnabod ac ymyrryd yn gynnar. Dywedodd un ymatebydd ei fod yn meithrin cysylltiadau â Chanolfan Gyfreithiol y Plant i gefnogi cydweithredu yn y dyfodol. Ystyriwyd bod cynnwys pum egwyddor Comisiynydd Plant Cymru yn y Cod yn ddefnyddiol.

Roedd rhai o’r ymatebion yn nodi heriau eraill, gan gynnwys bod yn glir ynghylch pryd y dylai barn plentyn gael blaenoriaeth dros farn rhieni wrth wneud penderfyniadau; pryderon am allu dysgwyr i roi cydsyniad ar sail gwybodaeth ar gyfer y CDU pan fyddant yn troi’n 16 oed ac ymgysylltu â

rhieni a phlant sy'n anodd eu cyrraedd, fel teithwyr, ffoaduriaid, a cheiswyr lloches, oherwydd rhwystrau iaith a rhwystrau diwylliannol.

Canfu ymatebwyr y gallai oedi mewn asesiadau, apelau, neu benderfyniadau cyllido rwystro mynediad uniongyrchol i addysg, gan fynd yn groes i ofyniad y CCUHP i addysg gael ei darparu'n effeithiol a heb rwystrau diangen. Awgrymwyd y byddai darparwyr addysg ac ALlau yn elwa ar ganllawiau cliriach ar yr hyn y mae 'rhoi sylw i' i'r ddau Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn ei olygu yn ymarferol.

Mynegwyd pryder am y diffyg cysondeb ledled Cymru ynghylch yr hyn sy'n cael ei ystyried yn DDdY ar gyfer dysgwyr ag anableddau llai cyffredin sy'n gofyn am fewnbwn arbenigol penodol ac nad yw'r llwybr at ddarpariaeth arbenigol yn deg i grŵp bach ond agored i niwed o ddysgwyr ac y gallai pwysau ariannol beri risg bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail y cyllid sydd ar gael.

## Cwestiwn e - Cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY

Cafwyd 35 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod darparu cyngor a gwybodaeth sy'n gynhwysfawr am ADY a'r system ADY yn bwysig. Fodd bynnag, mae heriau wrth sicrhau negeseuon cyson gan yr holl randdeiliaid oherwydd y gwahanol ddehongliadau o'r Ddeddf, y Cod a'r Rheoliadau sy'n arwain at ddiffyg eglurder a negeseuon anghyson.

Mynegwyd yr her o gynhyrchu gwybodaeth i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr sy'n cyfleu'r holl ddyletswyddau cyfreithiol gwahanol mewn ffordd sy'n ystyrlon ac yn hawdd ei deall, heb orsymleiddio. Nododd ymatebion eraill yr angen i hyrwyddo'r ffaith bod diwygiadau addysg a system ADY Cymru yn wahanol i'r hyn sydd ar waith yn Lloegr.

Soniwyd fod llawer o ysgolion a lleoliadau yn darparu gweithdai a boreau coffi i gefnogi rhieni a gofalwyr i ddeall agweddau ar ADY a DDdY. Mae rhai ALlau yn cynnal grwpiau cymorth rheolaidd i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY ac yn yr achosion mwyaf llwyddiannus maent wedi sefydlu swyddogion cyswllt â theuluoedd a gweithwyr achos.

Nodwyd pwysigrwydd mynediad cyfartal at wybodaeth, cyngor, cymorth ac eiriolaeth annibynnol. Roedd amrywioldeb y ddarpariaeth bresennol ledled Cymru yn cael ei gydnabod gyda theuluoedd mewn rhai ardaloedd yn disgrifio system ddwy haen, gyda rhai yn derbyn cymorth diduedd ac eraill yn dibynnu ar ddarpariaeth fewnol gan ALlau.

Ystyriwyd bod ymyrraeth gynnar, mynediad at gymorth ac eiriolaeth annibynnol i ddatrys anghytundebau yn bwysig er mwyn gwneud y system yn llai gwrthwynebol, er budd y plentyn neu'r person ifanc. Nodwyd bod rhieni yn cwestiynu annibyniaeth darpariaeth eiriolaeth a ariennir gan ALl.

Cafwyd sylwadau am ddiffyg cyngor a chyfarwyddyd diduedd a mynediad teg i opsiynau ôl-16 i bobl ifanc, gyda phrofiadau'n wahanol iawn ar hyd a lled Cymru. Ymddengys bod diffyg ymwybyddiaeth o eiriolaeth a dealltwriaeth o 'gynnig lleol', gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol heb ymwybyddiaeth lawn o'r ddarpariaeth a'r cynnig sydd ar gael. Mynegwyd y dylai dysgwyr sydd ag ADY cymhleth llai cyffredin a'u teuluoedd allu cael mynediad rhwydd at wybodaeth a chyfarwyddyd ar opsiynau ôl-16.

Roedd yr ymatebion yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer gwella ansawdd c argaeledd gwybodaeth, gan gynnwys datblygu safon genedlaethol ar gyfer darparu gwybodaeth ADY gyda ffynhonnell ganolog y gallai pob rhanddeiliad gael mynediad iddi. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys gwella gallu Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADYau) mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach, ynghyd â darparu gwybodaeth ADY mewn sawl fformat, er mwyn gwella hygyrchedd i'r holl randdeiliaid.

Awgrymwyd datblygu ymhellach y wefan Braenaru ADY Ôl-16 a sefydlu fforymau a gweithdai rheolaidd i hyrwyddo cyfathrebu a chydweithredu effeithiol ymhlith rhanddeiliaid.

## Cwestiwn f – Dyletswydd i baratoi cynllun datblygu unigol (CDU) - yn cynnwys y ddyletswydd ar ysgolion, colegau addysg bellach ac awdurdodau lleol (ALl)

Cafwyd 54 o ymatebion i'r ddau gwestiwn hyn.

Awgrymwyd mai'r maes hwn o'r Cod yw'r un y mae pobl yn ei ddeall orau. Serch hynny, mae'r gwahaniaeth rhwng pa CDUau y dylai ysgol eu cynnal a pha rai y dylai ALl eu cynnal yn agored i'w ddehongli, gan arwain at amrywiad sylweddol mewn polisi ledled Cymru. Fe wnaeth ymatebwyr sylwadau tebyg hefyd am y diffyg eglurder ynghylch cyfrifoldebau ar gyfer paratoi a chynnal CDUau rhwng sefydliadau addysg bellach ac ALlau. Gwnaed y pwynt nad yw'r Cod yn ystyried y gwahanol fecanweithiau cyllido o fewn ALlau a sut mae hyn yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch pwy sy'n paratoi a chynnal CDU.

Oherwydd bod ysgolion yn arwain ar y broses ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, adroddwyd bod hynny wedi adeiladu gallu a hyder mewn ysgolion ac wedi creu sylfaen dda ar gyfer proses gwneud penderfyniadau ysgolion. Fodd bynnag, awgrymwyd bod rhai rhieni yn teimlo bod darparu CDU ALl yn fwy diogel a bod ganddo statws cyfreithiol cryfach.

Fel y soniwyd mewn ymatebion i gwestiynau eraill, barn gyffredin yw bod yr amserlenni statudol yn aml yn afrealistig, gan roi cryn bwysau ar CADYau, timau statudol ALl a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r dyddiadau cau yn anodd eu bodloni o ystyried ffactorau fel yr angen i gasglu gwybodaeth amlasiantaeth a'r angen i lynu wrth ethos ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gall methu â bodloni'r amserlenni ac anghytundeb ynghylch a oes angen cymorth, a pha fath o gymorth sydd ei angen, ar gyfer plentyn neu berson ifanc roi straen ar y berthynas rhwng rhieni, ysgolion, ac ALlau.

Ailadroddwyd sylwadau ar reoli nifer fawr o CDUau mewn sefydliadau addysg bellach yma. Mae sylwadau eraill yn cynnwys anhawster paratoi CDU ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau tymor byr a rhan-amser.

Roedd llawer o sylwadau am fiwrocratiaeth y system a'r baich ar staff. Roedd rhai yn teimlo bod CDUau yn rhy hir erbyn hyn ac eraill yn galw am hyfforddiant ar sut i gwblhau CDU. Teimlwyd bod y broses yn feichus ac yn fiwrocrataidd a allai effeithio ar effeithiolrwydd CDUau wrth gefnogi anghenion dysgwyr, gan dynnu'r ffocws oddi ar ymyrraeth gynnar ac amserol.

Fe wnaeth eraill sylwadau ar bwysau cynyddol biwrocratiaeth a bodloni terfynau amser ar y CADY, gan restru'r cyfarfodydd niferus sy'n gysylltiedig â llunio ac adolygu CDU ynghyd â'i rôl yn cefnogi staff eraill. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys y diffyg eglurder ynghylch dyletswyddau ar gyfer pobl ôl-16 yn y sector annibynnol, bod amlder a natur anrhagweladwy ceisiadau rhieni am CDUau yn rhoi pwysau sylweddol ar ysgolion. Mewn sefyllfaoedd trawsffiniol, codwyd yr angen am ganllawiau cliriach ar yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn CDU a phwy sy'n paratoi CDUau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

## Cwestiwn g – Plant o dan oedran ysgol gorfodol – Dyletswydd ALl i gynnal CDU

Cafwyd 15 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol am rôl Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y blynyddoedd cynnar sy'n galluogi partneriaethau cryfach a pherthynas well gyda rhieni a thimau blynyddoedd cynnar ALlau. Fodd bynnag, nodwyd sawl her yn yr ymatebion. Un mater arwyddocaol yw heriau ymarferol adnabod ADY a DDdY a chynnal CDUau ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol.

Mynegwyd pryderon am yr angen i 'ragweld' anghenion dysgu plentyn yn y dyfodol yn hytrach na darparu ar gyfer ei angen presennol gan ddweud, mewn rhai achosion, ei bod yn anodd dweud yn sicr a yw anghenion y plentyn yn rhai hirdymor ai peidio. Nid yw'r Cod yn cydnabod bod angen cyfleoedd ar blant i gael mynediad at ymyrraeth gynnar ac i ddangos tystiolaeth o'i heffaith cyn y gellir ystyried ADY.

Mae diffyg eglurder o ran a yw ymyriadau gan wasanaethau iechyd, cyn tair oed, yn golygu bod angen CDU. Mynegwyd dryswch ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr ag 'addysg' i blant o dan oedran ysgol gorfodol, yn enwedig i blant ifanc iawn nad ydynt mewn lleoliad addysgol a sut mae 'addysgol' yn ymwneud â 'gofal plant'. Y gred yw nad yw'r Cod yn adlewyrchu realiti darpariaeth gofal plant yng Nghymru lle gall plant fynd o un lleoliad i'r llall yn ystod diwrnod neu wythnos.

Mae diffyg eglurder ynglŷn â'r diffiniad o leoliadau 'nas cynhelir' yn cael ei nodi, gan fod y term hwn yn cael ei ddehongli'n wahanol ar draws ALlau. Nodwyd heriau gan ALlau o ran sicrhau bod lleoliadau blynyddoedd cynnar

wedi'u paratoi i gefnogi plant ag ADY mewn tirwedd gymhleth o leoliadau preifat ar raddfa fach. Soniodd llawer am y diffyg mecanweithiau cyllido ar gyfer DDdY ar gyfer plant o dan ddwy oed ac ar gyfer y rhai rhwng tair a phum mlwydd oed mewn lleoliadau nas cynhelir.

Yn ogystal, soniwyd bod y broses o gynnal CDUau ar gyfer plant cyn ysgol yn creu disgwyliadau ymhlith rhieni y dylai'r cynlluniau hyn barhau i gael eu cynnal gan yr ALl unwaith y bydd y plentyn yn mynd i mewn i addysg brif ffrwd, gan arwain at wrthdaro ac apelau tribiwnlys posibl. Gall plant sy'n derbyn cyllid ar gyfer cymorth ychwanegol mewn rhaglenni blynyddoedd cynnar greu disgwyliad hefyd y bydd hyn yn parhau yn y lleoliad addysgol.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys y diffyg eglurder ynghylch pwy sy'n darparu DDdY os yw rhiant eisoes wedi penderfynu y bydd yn darparu addysg ddewisol yn y cartref i'w blentyn cyn ei fod o oedran ysgol statudol; y diffyg eglurder ynghylch ystyr 'plentyn sy'n derbyn gofal' o dan ddarpariaethau'r Ddeddf; angen am fwy o eglurder ynghylch pryd mae'r amserlen 12 wythnos ar gyfer llunio CDU yn dechrau ac eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau lleoliadau nas cynhelir.

## Cwestiwn h – Plant dros oedran ysgol gorfodol - Dyletswydd ALl i gynnal CDU

Cafwyd 25 o ymatebion i'r cwestiwn hwn ac roedd llawer o sylwadau yn gorgyffwrdd â'r ymatebion i gwestiynau f, i a j.

Mae'r dryswch ynglŷn â'r meini prawf ar gyfer cynnal CDU, sy'n arwain at wahaniaethau sylweddol ledled Cymru, yn thema ailadroddus. Mae dryswch ymhlith sefydliadau addysg bellach ynglŷn â'u dyletswyddau i lunio a chynnal CDU gydag enghreifftiau wedi'u dyfynnu, fel pan fydd lefel yr angen yn nadu dysgwr rhag ymgysylltu neu gael mynediad i ddarpariaeth sefydliad addysg bellach. Mae Byrddau Iechyd hefyd yn galw am fwy o eglurder ynghylch pwy ddylai gynnal CDU, gan fod hyn yn effeithio ar eu dyletswyddau statudol i ymateb i geisiadau am wybodaeth ac atgyfeiriadau o dan adran 20 ac adran 65 o'r Ddeddf.

Y teimlad oedd bod bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr a allai fod angen mwy o gymorth a chyrsiau pwrpasol nag sydd ar gael mewn sefydliad addysg bellach, ond nad oes arnynt angen y lefel o gymorth a ddarperir mewn sefydliad ôl-16 arbenigol annibynnol (ISPI). Nid yw'n glir pa DDdY y mae'n rhesymol disgwyl i sefydliad addysg bellach ei ddarparu a beth ddylai ddigwydd os na ellir darparu'r DDdY. Roedd yr ymatebion yn gofyn hefyd am eglurder ynghylch a ddylid cynnal CDU ar gyfer pobl ifanc sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref a'r rhai sy'n cael eu tiwtora yn y cartref neu sy'n dysgu ar-lein nad yw'n dod o dan ddarpariaeth sefydliad addysg bellach nac ALL.

Cyfeiriodd llawer o ymatebion at yr angen i wella'r broses o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth wrth i ddysgwyr bontio rhwng ysgolion a sefydliadau addysg bellach, er y cydnabyddir bod perthnasoedd yn cryfhau a bod

cydweithio ar y gweill rhwng ALlau a sefydliadau addysg bellach i ehangu cynigion ôl-16 lleol mewn rhannau o Gymru.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys yr angen am ragor o eglurder ar y rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n derbyn gofal a'r gwahaniaeth rhwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018; yr her pan nad yw pobl ifanc yn rhoi cydsyniad i drosglwyddo eu CDU i ddarparwr ôl-16; yr angen am eglurder ynghylch pwy ddylai ariannu cymorth arbenigol mewn sefydliad addysg bellach, er enghraifft mewnbwn synhwyraidd a diffyg rhestr gyhoeddedig o ysgolion annibynnol a'r math o DDdY y maent yn ei darparu.

## Cwestiwn i – Pobl ifanc mewn coleg addysg bellach – Dyletswydd ar y coleg ac ALl i gynnal CDU

Cafwyd 28 ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae llawer o ymatebion yn cefnogi'r rhai a dderbyniwyd i gwestiynau f, h j ac n.

Mynegwyd ansicrwydd ynghylch sut i gyfrifo'r hawl i addysg bellach am ddwy flynedd, yn enwedig i ddysgwyr sy'n parhau i fod yn y ddarpariaeth arbenigol brif ffrwd y tu hwnt i 16 oed. Mynegwyd hefyd bryder sylweddol ynghylch sut i ddehongli 'angen rhesymol am addysg a hyfforddiant pellach' mewn perthynas â'r cymhwystra i gael cymorth addysgol estynedig, yn ogystal â'r canfyddiad y bydd CDUau yn parhau tan 25 oed.

Ymhlith y pryderon eraill a godwyd oedd hawl ôl-16 a disgwyliad rhieni y byddai darpariaeth amser llawn, pum diwrnod yr wythnos, sy'n creu anghydfodau ynghylch cyfrifoldebau cyllido a'r diffyg eglurder ynghylch gallu dysgwyr sefydliadau addysg bellach i gael mynediad at ymyriadau ac adnoddau gan wasanaethau iechyd.

Soniodd sefydliadau addysg bellach am y baich cynyddol o fynychu cyfarfodydd adolygu ysgolion, sydd wedi'u cymhlethu gan wahanol gylchoedd adolygu mewn gwahanol ALlau a'r angen brys am system electronig i drosglwyddo gwybodaeth rhwng lleoliadau.

Roedd yr ymatebion yn sôn bod y rhwymedigaethau statudol gwahanol o ran yr hyn y mae'n rhaid i sefydliad addysg bellach ei ddarparu o gymharu â'r hyn a ddarperir gan ysgolion yn gadael ALlau i lenwi bylchau cyllido ar gyfer therapïau ac ymyriadau arbenigol a gofyn cynyddol am leoliadau ISPI. Soniwyd am ansicrwydd ynghylch yr hyn sy'n cael ei ystyried y tu hwnt i gapasiti rhesymol ALl i'w ddarparu hefyd.

Tynnwyd sylw at yr anghysondeb yn y gweithdrefnau ar gyfer adolygu CDU dysgwr ag ADY sy'n gadael rhaglen astudio sefydliad addysg bellach a all arwain at y dysgwr yn ei gael ei hun heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

## Cwestiwn j – Pobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir neu goleg addysg bellach – Dyletswyddau ar ALI

Roedd 15 ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda llawer o'r sylwadau yn cefnogi'r rhai a gafwyd ar gyfer cwestiynau f, i a h.

Materion ychwanegol at y rhai a grybwyllwyd yn flaenorol oedd bod y gwahaniaethau yn y dyletswyddau sydd ar ALlau, ysgolion annibynnol ac ISPIs yn rhoi pwysau ychwanegol ar ALlau i lunio a chynnal CDUau ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu'r darpariaethau hyn.

Nododd ALlau heriau llunio CDUau ar gyfer dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref neu mewn darpariaeth annibynnol gan nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth gronnol a hydredol am y bobl ifanc. Nodwyd y cynnydd mewn ceisiadau i ALlau ystyried ADY ar gyfer dysgwyr sy'n ariannu darpariaeth eu hunain mewn ysgolion annibynnol prif ffrwd a'r pwysau y mae hyn yn ei greu i lunio a chynnal CDU a hefyd amwysedd ynghylch pryd mae person ifanc yn cyrraedd y meini prawf ar gyfer EOTAS ôl-16.

Cafodd y rhyngweithio rhwng y Ddeddf a'r gofyniad mewn rheoliadau sy'n llywodraethu ysgolion annibynnol, i ysgol annibynnol gael ei chofrestru'n briodol i dderbyn plentyn neu berson ifanc gydag ADY penodol ei godi.

## Cwestiwn k –Cynnwys CDU gan gynnwys ADY Adrannau 2a, 2b, 2c, 2d a Darpariaeth yn y Gymraeg

Cafwyd 96 o ymatebion i'r gyfres hon o bum cwestiwn.

### Adran 2a – Disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc

Nododd ymatebwyr fod amrywioldeb sylweddol mewn ymarfer rhwng ysgolion ac ALlau ynghylch ansawdd a lefel manylder yn yr adran hon o'r CDU. Dywedodd sefydliadau addysg bellach fod yr amrywiad a'r anghysondebau yng nghywirdeb, ansawdd a digonolrwydd gwybodaeth a phrydlondeb derbyn y dogfennau wedi creu llawer o heriau.

Dangosodd ymatebion yr angen am ganllawiau ar ystyried adroddiadau a gomisiynwyd yn breifat; pryd i gynnwys anghenion iechyd; effaith cyflyrau iechyd ar ddysgu; y gwahaniaeth rhwng ADY, angen ymddygiadol ac angen corfforol neu synhwyraidd ac addasiadau rhesymol a DDdY.

Galwodd Byrddau Iechyd am gryfhau'r Cod drwy ddarparu mwy o eglurder ar sut i ofyn am wybodaeth (adran 65) mewn modd wedi'i dargedu, drwy ofyn cwestiynau penodol gan ddarparu ar yr un pryd ddigon o wybodaeth am y rhwystrau i ddysgu, a lleihau nifer y ceisiadau am wybodaeth wrth lunio CDU.

### Adran 2b – Disgrifio a chyflwyno DDdY y plentyn a'r person ifanc

Mae'r sylwadau a gafwyd am yr adran hon yn ymwneud â'r her o greu canlyniadau o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n rhai

CAMPUS (Credadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol), sy’n cyd-fynd â dyheadau’r dysgwyr.

Roedd sylwadau yn nodi bod ysgolion yn ei chael hi’n anodd ar adegau i fod yn benodol gyda DDdY. Nododd sefydliadau addysg bellach, yn achos dysgwyr sy’n pontio o’r ysgol i ddarpariaeth ôl-16, nad oedd CDUau yn aml yn cydnabod y broses o bontio ac yn adlewyrchu’r gwahaniaethau sylweddol rhwng amgylcheddau dysgu a llwybrau dysgu ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

Mynegwyd barn ar yr angen am hyfforddiant parhaus ar lunio CDUau ac i sicrhau bod deilliannau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn a disgwyliadau targed CAMPUS yn cyd-fynd er mwyn creu deilliannau o ansawdd da. Mynegwyd pryder am y gallu i oruchwylio cynnydd dysgwyr ag ADY pan fydd y cyllid wedi dod i ben.

**Adran 2c - Disgrifio a chyflwyno’r DDdY sydd i’w sicrhau gan un o gyrff y GIG**

Un o’r prif heriau a nodwyd gan ymatebwyr yw’r diffyg eglurder ynghylch beth sy’n gyfystyr â DDdY y GIG o fewn y Cod, gan arwain at ddryswch. Roedd ymatebion yn ceisio eglurder mewn perthynas â DDdY y GIG ac a ddylai gynnwys triniaethau neu wasanaethau sy’n addysgu neu’n hyfforddi yn unig, yn hytrach na thriniaethau neu wasanaethau ehangach fel y rhai nad ydynt yn addysgu nac yn hyfforddi, ond sy’n debygol o fod o fudd wrth fynd i’r afael ag anghenion dysgu.

Cafwyd galwad hefyd am eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau cyrff iechyd ac addysg mewn perthynas â diogelu DDdY y GIG, gan gynnwys lle y dylid cofnodi DDdY sy’n cael ei sicrhau drwy Fyrddau Iechyd ac os oes angen ei chofnodi mewn CDU yn adrannau 2b, 2c neu’r ddau.

Cyfeiriodd ymatebwyr eraill at yr her ynghylch anghysondeb mewn cydweithredu amlasiantaeth, a all arwain at oedi wrth sicrhau darpariaeth briodol.

**Adran 2d - Lle mewn ysgol/sefydliad a enwir neu ddarpariaeth bwyd/llety**

Tynnodd ymatebwyr sylw at anawsterau wrth ddeall a chymhwyso’r canllawiau yn y Cod, gan nodi bod angen eglurhad pellach ynghylch pryd i enwi’r lleoliad, a ddylid enwi ysgol benodol neu ddarpariaeth benodol o fewn ysgol brif ffrwd a pha ysgolion annibynnol y gellir eu henwi.

Roedd galw am fwy o ganllawiau ac eglurhad yn dilyn dyfarniadau’r Tribiwnlys Addysg a’r Uwch Dribiwnlys yn ymwneud ag enwi ysgolion. Roedd rhai ymatebion yn cwestiynu’r angen am adrannau 2d.1 a 2d.2, gan awgrymu y gellid symleiddio’r CDU i’w wneud yn gliriach i’r holl randdeiliaid, yn enwedig rhieni a phobl ifanc. Soniwyd am heriau ariannol sy’n wynebu ALlau wrth ymateb i’r nifer cynyddol o ddysgwyr ADY sy’n cael lleoliadau arbenigol.

**Darpariaeth yn y Gymraeg**

Mae’r ymatebion yn tynnu sylw at y ffaith bod heriau sylweddol yn parhau wrth ddarparu cymorth ADY yn y Gymraeg, gan gynnwys diffyg asesiadau

safonedig, anawsterau wrth recriwtio staff ar gyfer rolau cyfrwng Cymraeg, a'r ffaith nad oes mathau penodol o DDdY ar gael yn y Gymraeg. Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at y ffaith bod sicrhau DDdY iechyd priodol trwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i fod yn anodd oherwydd nad yw adnoddau ar gael. Nodwyd prinder eiriolaeth cyfrwng Cymraeg i rieni a phlant hefyd.

Gofynnodd ymatebwyr am eglurhad pellach ynglŷn ag ystyr 'cymryd pob cam rhesymol' mewn perthynas â darparu DDdY yn y Gymraeg ac roedd eraill yn argymell tynnu'r ymadrodd o'r Rheoliadau.

Cafodd manteision penodi Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol ADY i arwain ymateb strategol i wella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg eu cydnabod mewn ymatebion.

## Cwestiwn l – Plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru ond yn cael eu haddysgu yn Lloegr

Cafwyd 16 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Mae sylwadau'n awgrymu bod y gweithdrefnau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a threfniadau trawsffiniol yn gymhleth ac yn ddryslyd. Y broblem dybiedig fwyaf oedd y cydadwaith rhwng y gwahanol systemau yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'r gwahaniaethau hyn bob amser yn glir i rieni ac nid yw ALlau Lloegr, ysgolion a gynhelir yn Lloegr ac ymarferwyr gofal cymdeithasol o reidrwydd yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth wahanol yng Nghymru. Hefyd, gall deall cyfrifoldebau ar gyfer darparu cyllid achosi oedi mewn derbyniadau ac wrth gael mynediad at ddarpariaeth i ddysgwyr agored i niwed.

Soniwyd bod y datgysylltiad rhwng y ddwy system ddeddfwriaethol (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Ddeddf ADY) ar lefel weithredol yn cael ei waethygu ar gyfer dysgwyr ôl-16 i'r pwynt lle mae achosion o ddysgwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal yn cael CDU a Chynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHCP) er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddyletswydd yn cael ei cholli neu ei hesgeuluso.

Galwodd Byrddau Iechyd Cymru am eglurder ynglŷn â'u cyfrifoldebau o dan atgyfeiriadau Adran 20, yn enwedig mewn achosion pan fo dysgwr wedi'i gofrestru gyda darparwr iechyd neu ymddiriedolaeth yn Lloegr ac yn cael gofal iechyd gan y darparwr hwnnw neu'r ymddiriedolaeth honno, ond yn cael ei addysgu yng Nghymru.

## Cwestiwn m – Plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)

Cafwyd 23 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Cododd ymatebwyr y mater bod y disgwyliadau a'r galwadau cynyddol am EOTAS yn creu pwysau ar awdurdodau lleol i ddarparu. Ceisir eglurder ynghylch beth yw DDdY mewn lleoliadau EOTAS gydag ymatebwyr yn nodi

ceisiadau am becynnau o ddarpariaethau pwrpasol nad ydynt o reidrwydd yn canolbwyntio ar addysg ac yn tynnu sylw at enghreifftiau o ymyriadau therapiwtig yn cael eu cytuno fel DDdY yn y Tribiwnlys. Mae rhai o'r therapïau heb eu rheoleiddio ac nid oes ganddynt sylfaen dystiolaeth i ddangos deilliannau addysgol, gan gwestiynu a yw hyn yn ddefnydd o arian cyhoeddus y gellir ei amddiffyn.

Teimlir nad yw'r Cod yn ddigon hyblyg i gydnabod bod yna lawer o resymau y gall dysgwr dderbyn EOTAS ac nad yw pob un yn gysylltiedig ag ADY. Codwyd yr heriau o reoli CDUau ac amserlenni ar gyfer dysgwyr sy'n cael mynediad at EOTAS am gyfnodau byr o ymyriad sy'n gofyn am adolygiad CDU. Gall hyn arwain at sawl adolygiad o fewn blwyddyn sy'n cynyddu llwythi gwaith.

Ceisir eglurder ar y disgwyliad bod angen CDU ar bob dysgwr sy'n cyrchu EOTAS oherwydd anghenion gofal iechyd, er nad oes ganddynt ADY sydd wedi'i adnabod neu CDU yn flaenorol. Mae rhai ALlau yn awgrymu bod angen trafodaeth ehangach, genedlaethol ar EOTAS, cynlluniau iechyd unigol ac ADY.

Mae sefydliadau addysg bellach yn nodi'r diffyg gwybodaeth a chymorth sydd ar gael i bobl ifanc sydd wedi bod mewn darpariaeth EOTAS neu'n cael addysg ddewisol yn y cartref wrth bontio i addysg bellach. Nid oes gan lawer o bobl ifanc CDUau ond mae ganddynt anghenion cymorth. Mae'n anodd penderfynu a oes angen y cymorth oherwydd anhawster dysgu neu oherwydd rhesymau eraill.

## Cwestiwn n - Plant a phobl ifanc sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE) a phlentyn/plant sy'n derbyn gofal

Cafwyd 28 o ymatebion i'r cwestiwn hwn gyda rhai yn gorgyffwrdd ag atebion i gwestiwn i ac eraill yn ymwneud â dysgwyr ôl-16.

Roedd y diffyg eglurder ynglŷn â dyletswyddau ALl mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref yn thema ailadroddus mewn ymatebion gan arwain at ddehongliad anghyson o'r ddeddfwriaeth ledled Cymru. Nodwyd bod y Cod yn codi disgwyliadau rhieni a phobl ifanc ynghylch y DDdY sydd ar gael iddynt pan fydd fyddant yn derbyn addysg ddewisol yn y cartref. Gwnaed sylwadau am yr anawsterau o ran adnabod ADY ar gyfer plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref ac nad ydynt yn hysbys i wasanaethau a gall penderfynu ar y DDdY sy'n 'ychwanegol at ac yn wahanol' i'r hyn a wneir yn gyffredinol fod yn anodd.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys y gall ymgysylltu â rhai rhieni fod yn heriol a bod diffyg eglurder ar sut y dylai ALlau gefnogi dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref ar ôl oedran ysgol gorfodol.

Nododd Byrddau Iechyd yn eu hymateb yr angen i gryfhau'r ddeddfwriaeth trwy osod dyletswyddau ar Fyrddau Iechyd i hysbysu ALlau am bryderon ADY posibl am blentyn sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

Nododd llawer o ymatebion y diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau pan fydd plant a phobl ifanc yn cael eu lleoli allan o'r sir yng Nghymru a thros y ffin yn Lloegr. Cafodd y cydadwaith rhwng y Ddeddf ADY a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ei godi, yn ogystal â'r anghysondeb yn y ddealltwriaeth o gyfrifoldeb am CDUau i blant o dan oedran ysgol gorfodol. Nodwyd hefyd nad yw'r prosesau ar gyfer person ifanc sy'n destun Trefniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid yn glir.

## Cwestiwn o - Rhoi'r gorau i gadw CDU

Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod canllawiau ynghylch 'Rhoi'r gorau i gynnal CDU' yn cael eu deall, ond gall fod yn benderfyniad anodd i rieni ei dderbyn, yn enwedig pan fyddant yn ofni y gallai eu plentyn golli cymorth a chymryd cam yn ôl o ran sgiliau. Teimlwyd bod y broses yn glir yn y Cod, ond bod heriau wrth ei weithredu.

Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod yna amharodrwydd yn aml i roi'r gorau i CDU i ddysgwyr oedran ysgol oherwydd pryderon am heriau cyfreithiol.

Cyfeiriodd sefydliadau addysg bellach at yr anawsterau wrth benderfynu a ddylid rhoi'r gorau i CDU pan nad yw'n glir a yw dysgwr yn bwriadu aros ar gwrs neu adael cwrs neu os nad yw dysgwr yn ymgysylltu â'r ddarpariaeth neu'r broses sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gofynnodd yr ymatebwyr hefyd am fwy o eglurder ar statws CDU a'u cyfrifoldebau pan fydd dysgwr yn tynnu'n ôl o gwrs.

Codwyd y camsyniad o hawl i addysg barhaus hyd at 25 oed a bod CDUau yn dilyn pobl i fyd gwaith, a chafodd addysg uwch ei chodi hefyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

## Cwestiwn p – Plant a phobl ifanc heb alluedd meddyliol

Cafwyd 15 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Tynnodd sawl ymatebydd sylw at yr her ynghylch y diffyg eglurder a chanllawiau ar asesu galluedd ac o ran penderfynu pwy ddylai gynnal asesiadau, gan nad yw staff sy'n rhan o'r broses o wneud penderfyniadau bob amser wedi'u hyfforddi, gan arwain at anghysondebau a phenderfyniadau anghywir posibl. Roedd rhai ymatebion yn galw am ganllawiau cliriach ac eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau yn ystod yr asesiad.

Roedd sicrhau bod barn a dyheadau'r plentyn neu'r person ifanc yn cael eu gwahaniaethu oddi wrth safbwyntiau pobl eraill sy'n ymwneud â'u gofal a mynediad at eiriolaeth annibynnol yn cael ei ystyried yn fater hollbwysig yn yr ymatebion.

Roedd eraill yn teimlo bod cymhlethdod y system a'r prosesau, yn enwedig y broses o bontio i addysg ôl-16, yn her a bod angen gwell gwybodaeth a

threfniadau pontio cryfach i gefnogi'r dysgwyr hyn a'u teuluoedd. Nododd rhai fod cyfranogiad gwahanol asiantaethau, fel gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol iechyd, yn helpu i gasglu cyfraniadau dilys y gwrandewir arnynt gan y plentyn neu'r person ifanc.

Nodwyd bod datganoli cyllid sefydliadau addysg bellach arbenigol i ALlau yn risg, gan beri anfantais i bobl ifanc heb y galluedd meddyliol o gymharu â'u cyfoedion, a'r angen i sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol yn deall cwmpas addysg bellach i bobl ifanc sydd heb alluedd meddyliol a'u bod yn gwbl ymwybodol o'r holl opsiynau sydd ar gael.

## Cwestiwn q - Pontio'r ddarpariaeth AAA i ADY

Cafwyd 19 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Fe wnaeth ymatebwyr sylwadau ar effaith gadarnhaol y dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran rhoi mwy o lais i ddysgwyr a'u cynnwys fwy yn y gwaith o gynllunio ac adolygu eu cymorth a'u darpariaeth.

Cydnabuwyd bod darpariaeth cyllid grant gan Lywodraeth Cymru ac ymestyn y cyfnod gweithredu yn bwysig wrth sicrhau pontio effeithiol a rhwydd, gan alluogi ysgolion i ddatblygu eu harferion ac ALlau i ymateb i newidiadau yn anghenion dysgwyr ADY.

Nodwyd heriau eraill, gan gynnwys dehongliad gwahanol o'r termau ADY ac DDdY, diffyg eglurder ynglŷn â throsi Cynlluniau Addysg Unigol (CAUau) i CDUau yn creu dryswch a rhoi straen ar y system, fel y mae cynnal y system ddeuol o AAA ac ADY.

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at y ffaith bod y newid wedi rhoi pwysau ychwanegol ar CADYau. Nid oes cysondeb yn yr amser a roddir i CADYau i gyflawni eu dyletswyddau, sydd mewn rhai achosion wedi achosi gostyngiad mewn boddhad swydd, gyda llawer yn mynegi awydd i adael eu rolau oherwydd cynnydd mewn gorbryder a llwyth gwaith. Dywedodd rhai bod rôl y CADY a'i safle fel aelod o'r Uwch Dîm Arwain yn gofyn am gyllid parhaus ac eglurder ynghylch ei gyfrifoldebau.

Nododd ymatebwyr o sefydliadau addysg bellach y cynnydd yn y baich gweinyddol ar sefydliadau addysg bellach gan eu bod wedi gorfod sefydlu prosesau newydd o dan y ddeddfwriaeth newydd. Ychwanegwyd bod diffyg platfform electronig CDU Cymru gyfan ar gyfer cofnodi a throsglwyddo gwybodaeth wedi gwaethygu pwysau llwyth gwaith.

Roedd galwad am eglurder ar sefyllfa dysgwyr ôl-16 a oedd yn rhy hen i ddod o dan y blynyddoedd pontio gorfodol yn ystod y cyfnod gweithredu a'r angen i adnabod plant a gollodd allan ar gymorth yn ystod y cyfnod pontio, er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o gymorth i alluogi eu cynnydd. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys yr angen i alinio canllawiau gweithdrefnol Tribiwnlys Addysg Cymru a'r Cod; a'r angen am ragor o hyfforddiant i athrawon, uwch reolwyr, a llywodraethwyr i newid agweddau a diwylliant mewn ysgolion.

## Cwestiwn r – Gweithdrefnau a phwerau Tribiwnlys Addysg Cymru

Cafwyd 22 o ymatebion i'r cwestiwn hwn gyda'r rhan fwyaf yn canolbwyntio ar weithdrefnau'r Tribiwnlys.

Cydnabuwyd mewn ymatebion y cafwyd eglurder gan Lywydd y Tribiwnlys ar yr angen i ganolbwyntio ar y Ddeddf a'r Rheoliadau, yn hytrach na'r Cod a bod y Cod yn darparu eglurder ynghylch ble y gellir gwneud apelau a phenderfyniadau y gall y Tribiwnlys eu gwneud. Fodd bynnag, nodwyd bod yr hierarchaeth hon yn peri dryswch ynghylch statws y Cod.

Codwyd llawer o bryderon am weithdrefnau'r Tribiwnlys. Roedd ymatebwyr yn teimlo bod y system yn gynhenid wrthwynebol ac nad yw'n adlewyrchu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac nad yw peth o'r iaith yn ddefnyddiol gyda rhai yn awgrymu y dylai cyfryngu fod yn gam angenrheidiol cyn apelio i'r Tribiwnlys. Cyfeiriodd llawer o ymatebion at yr amrywiad mewn prosesau a ffocws gwahanol gadeiryddion y Tribiwnlys ac anghysondeb ym mhenderfyniadau'r Tribiwnlys. Roedd rhai yn credu bod yr anghysondeb hwn yn arwain at ddiffyg hyder ymhlith ALlau, a allai deimlo gorfodaeth i geisio cynrychiolaeth gyfreithiol oherwydd natur wrthwynebol ganfyddedig Tribiwnlys.

Roedd ymatebwyr yn teimlo bod penderfyniadau'r Tribiwnlys yn aml yn ffafrio dewis rhieni a therapïau preifat, gan ddisodli'r rhagdybiaeth ar gyfer addysg brif ffrwd a gorbwyso cyngor proffesiynol gwrthrychol.

Mynegwyd pryder bod amserlenni ar gyfer paratoi gwybodaeth ar gyfer y Tribiwnlys yn aml yn fyr, gan greu pwysau ar adnoddau. Arsylwodd ymatebwyr hefyd nad yw'r oedi wrth gyhoeddi gwybodaeth am benderfyniadau yn ddefnyddiol i ALlau sy'n ystyried achosion tebyg. Gofynnodd Byrddau Iechyd am fwy o eglurder ar argymhellion y Tribiwnlys i gyrff y GIG.

## Sylw 1 - Statws y Cod ADY, a'r cydadwaith rhwng y Ddeddf ADY, y Rheoliadau ADY a'r Cod ADY wrth wneud penderfyniadau a chymhwyso'r gyfraith

Cafwyd 11 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae llawer o'r sylwadau yn gorgyffwrdd â'r rhai a gafwyd ar gyfer Sylw 2 a chwestiynau eraill.

Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at y diffyg eglurder a chysondeb rhwng y Cod a'r Ddeddf, gan arwain at ddryswch ymhlith ALlau ac ysgolion ac o ganlyniad mae'r gyfraith yn cael ei dehongli'n wahanol a'i chymhwyso'n anghyson. Yn ogystal, roedd ymatebwyr yn teimlo bod dyletswyddau "angenrheidiol" y Cod yn cael eu gweld fel rhai sydd â statws cyfartal â'r Ddeddf, fodd bynnag, mae'r Tribiwnlys wedi datgan bod hierarchaeth, lle mae'r Ddeddf a'r Rheoliadau yn cael blaenoriaeth dros y Cod, sy'n peri dryswch ynghylch statws y Cod.

Dywedwyd hefyd bod dryswch o hyd ynglŷn â statws y Cod oherwydd yr hyn sy'n cael ei ddisgrifio fel 'negeseuon cymysg' dros amser gan Lywodraeth Cymru, arweinwyr pontio a Thribiwnlys Addysg Cymru. Mae penderfyniadau'r tribiwnlys yn awgrymu y dylai pob plentyn a oedd ar y system AAA gael CDU yn ddiofyn, sy'n mynd yn groes i'r hyn sydd wedi'i weld yn ystod y cyfnod pontio sef cynnydd mewn darpariaeth gynhwysol mewn ysgolion.

Tynnodd sawl ymatebydd sylw at y ffaith ei bod yn hanfodol darparu diffiniadau a chanllawiau cliriach ar dermau a darpariaethau allweddol er mwyn lleihau'r cyfle ar gyfer dehongli ac anghydfodau cyfreithiol. Er enghraifft, mae angen diffinio'r term DDdY yn llawer manylach i'w wahaniaethu oddi wrth ddarpariaeth a wneir yn gyffredinol, sydd ar gael i bob plentyn. Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai'r eglurder hwn yn helpu ALlau ac ysgolion i wneud penderfyniadau mwy gwybodus a lleihau'r tebygolrwydd o apelau Tribiwnlys. Yn ogystal, hoffent i'r Cod gael ei ddiwygio, gan ei wneud yn haws ei ddefnyddio ac ymarferol i ddefnyddwyr, gan ddileu cymhlethdod ac ailadrodd diangen a'i osod fel ei fod yn dilyn taith y broses ADY o'r dechrau i'r diwedd.

## Sylw 2 - Unrhyw gamgymharu ymddangosiadol rhwng y Ddeddf a'r Cod ADY, neu unrhyw ddryswch mewn perthynas ag ystyr y Cod ADY

Cafwyd 9 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae'r sylwadau a wnaed yn gorgyffwrdd â chwestiynau eraill ac yn ailadrodd y sylwadau a wnaed yn Sylw 1.

## Sylw 3 - Unrhyw sylwadau eraill sy'n disgyn y tu allan i'r penawdau a'r materion a godwyd uchod

Cafwyd 27 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Mae llawer o'r ymatebion yn codi materion sy'n cael eu trafod mewn cwestiynau eraill.

Cododd y Byrddau Iechyd nifer o faterion yn ymwneud â'u dyletswyddau, gan gynnwys y diffyg eglurder yn y Ddeddf ynghylch y disgwyliad i gyrff y GIG flaenoriaethu'n glinigol asesiadau neu driniaethau i blant o dan geisiadau adran 65 ac atgyfeiriadau adran 20, her asesu plant nad ydynt yn hysbys i'w gwasanaethau ar yr adeg honno a goblygiadau rhestrau aros hir ar gyfer ymyriadau.

Cyfeiriwyd at bryderon ynghylch dehongli'r cymal 'anghydnawsedd' mewn perthynas â cheisiadau adran 65, gan nodi y gall absenoldeb enghreifftiau o'r hyn sy'n 'anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hun' arwain at ymatebion anghyson gan Fyrddau Iechyd, yn enwedig mewn amgylchiadau eithriadol fel digwyddiadau pandemig.

Codwyd yr anghydnawsedd rhwng yr amserlenni sy'n ofynnol gan gyrff y GIG o dan adrannau 65 a 20 o'r Ddeddf a'r rhai y mae sefydliadau addysgol yn glynu wrthynt. Nodwyd nad yw'r arfer sefydledig o gyflwyno ceisiadau adran 65 cyn atgyfeiriadau adran 20 yn cael ei gefnogi'n benodol gan y Cod ADY, gan arwain at ddehongliadau amrywiol a'r ansicrwydd ynghylch adolygu

CDUau, yn enwedig ynghylch a oes angen atgyfeiriad adran 20 ar gyfer darpariaethau wedi'u hadnewyddu.

Tynnodd yr ymatebion sylw hefyd at y ffaith bod gweithredu'r Ddeddf wedi creu llwyth gwaith ychwanegol i wasanaethau iechyd, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd cynllunio ac ymateb i geisiadau am wybodaeth, gan bwysleisio'r angen i ystyried yr effaith ar adnoddau'r GIG, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith nad oes cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu.

Roedd sylwadau eraill yn ymwneud â'r angen i sicrhau mynediad cyfartal at gymorth ADY ar draws gwahanol ranbarthau a lleoliadau, mynd i'r afael â chyfyngiadau mewn adnoddau a darparu datblygiad proffesiynol parhaus i addysgwyr a staff cymorth gan gynnwys hyfforddiant cyfreithiol.

Mynegwyd pryder ynghylch graddau rôl dwy haen Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn rheoli'r elfen statudol ynghyd â chefnogi lleoliadau gofal plant.

Codwyd yr angen am fecanwaith i gofnodi a monitro dysgwyr a allai fod angen cymorth ond nad oes ganddynt CDU.

Cyfeiriwyd at ddryswch ynghylch pa gydsyniad rhieni sydd ei angen i brosesau barhau a beth sy'n digwydd pan nad yw rhieni eisiau i'r broses ddechrau neu barhau neu nad ydynt yn cydsynio i gynnwys gweithwyr proffesiynol.

Roedd yr ymatebion yn cwmpasu amrywiaeth o faterion eraill hefyd, gan gynnwys bod y Cod ADY yn cymhlethu'r broses ar gyfer ailintegreiddio dysgwyr yn EOTAS ac Uned Cyfeirio Disgyblion i ddarpariaeth brif ffrwd. Yr angen am fwy o eglurder i ddysgwyr sy'n cael eu cadw; y diffyg eglurder ynghylch materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth i ddysgwyr ôl-16; yr angen am ddealltwriaeth glir o'r term 'anabledd' o dan y Ddeddf Cydraddoldeb; nid yw'n glir a fydd amrywiaeth o gymwysterau ar gael yn y Gymraeg sy'n cyfyngu ar gynnig y Gymraeg. Codwyd yr angen am fwy o hyfforddiant ymwybyddiaeth a phrofiad o'r broses ADY mewn addysg gychwynnol athrawon a hyfforddiant athrawon cynnar hefyd.

# Y camau nesaf

Dymuna Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a neilltuodd amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Fel y mae'r crynodeb hwn yn dangos, cafwyd llawer iawn o adborth mewn ymateb i'r cais am wybodaeth. Bydd y sylwadau'n cael eu hystyried a'u defnyddio i lywio'r camau nesaf, polisi ac atebion deddfwriaethol ar feysydd yn ymwneud â'r Ddeddf, y Rheoliadau a'r Cod.

Yn y cyfamser, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â phartneriaid cyflawni a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ansawdd a gwelliannau parhaus i'r system ADY fel bod pob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael eu hysbrydoli, eu hysgogi a'u cefnogi i gyrraedd eu potensial yn llawn.

# Atodiad 1

Geirfa

AAA – Anghenion Addysgol Arbennig

ADY - Anghenion Dysgu Ychwanegol

ALl - Awdurdod Lleol

CADY – Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

CAMPUS – Credadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol

CAU - Cynllun Addysg Unigol

CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

CCUHPA – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl

CDU – Cynllun Datblygu Unigol

DECLO – Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg

DDdY – Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

EHCP – Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal

EOTAS – Addysg Heblaw yn yr Ysgol

ISPI – Sefydliad Ôl-16 Arbennig Annibynnol

# Atodiad 2

Rhestr o'r ymatebwyr

**Awdurdodau Lleol:**
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Caerdydd
Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Sir Gâr
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ynys Môn

**Sefydliadau Addysg Bellach:**
Addysg Oedolion Cymru
Coleg Caerdydd a'r Fro
Coleg Cambria
Coleg Catholig Dewi Sant
Coleg Gwent
Coleg Gŵyr Abertawe
Coleg Merthyr Tudful
Coleg Penybont
Coleg Sir Benfro
Coleg y Cymoedd
Grŵp Colegau NPTC
Grŵp Llandrillo – Menai

**Byrddau Iechyd yng Nghymru / Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (DECLO):**
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

**Ymatebion unigol:**
Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol ADY (y Gymraeg)
Childcare Wales Learning and Working Mutually (CWLWM)
Comisiynydd y Gymraeg
Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA)
Estyn – arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru
Gyrfa Cymru
Medr – Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
SenCom – Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd a Chyfathrebu – yn cael ei gynnal gan Gyngor Torfaen sy'n gweithio'n rhanbarthol gyda chynghorau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen
SNAP Cymru - elusen genedlaethol sy'n datblygu addysg ac yn cefnogi'r broses o sicrhau cynhwysiant yng Nghymru

**Undebau'r athrawon:**
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
Undeb Llafur Community
Yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU)

# Atodiad 3

Llythyr a anfonwyd at Awdurdodau Lleol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ionawr 2025

Annwyl (partner cyflenwi/rhanddeiliad allweddol)

Ym mis Hydref 2024 cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ei bwriad i adolygu'r fframwaith deddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'r adolygiad yn ystyried eglurder a hygyrchedd y fframwaith deddfwriaethol i lywio atebion deddfwriaethol a pholisi ar feysydd y Ddeddf, Rheoliadau a Chod ADY.
Mae hyn yn cyd-fynd â gweithgarwch ymchwil manwl a chanfyddiadau'r gwerthusiad pedair blynedd o'r system ADY, a gynhaliwyd gan Arad Research. Mae hyn yn cynnwys yr adroddiad cwmpasu, arolwg ymarferwyr (a ddisgwylir ym mis Chwefror 2025) ac arolwg o rieni a gofalwyr sydd ar y gweill.

Mae proses ailadroddol o gasglu tystiolaeth wedi dechrau sy'n ceisio dwyn ynghyd dystiolaeth o wahanol safbwyntiau i archwilio ystod o faterion, gan gynnwys;

- Ystyried eglurder a hygyrchedd y Ddeddf, y Rheoliadau a'r Cod
- Sicrhau ei fod yn adlewyrchu bwriad y polisi
- Unrhyw anghysondebau ac ardaloedd lle gallai fod angen mwy o eglurder
- Deall sut mae'r fframwaith deddfwriaethol yn trosi i arfer
- Nodi atebion polisi a deddfwriaethol

Fel (rhanddeiliad/partner cyflenwi) allweddol rwy'n eich gwahodd i gyfrannu tystiolaeth i'r adolygiad.
Fe'ch anogir i drefnu eich ymateb o dan y penawdau isod, gan ddefnyddio'r rhai sy'n berthnasol i chi. Byddwch mor benodol â phosibl ynghylch pa feysydd o'r Ddeddf, y Cod neu'r Rheoliadau rydych yn cyfeirio atynt. Os yw'n ddefnyddiol, mae croeso i chi gynnwys enghreifftiau ymarferol dienw o'r heriau a wynebir a'r profiadau mewn perthynas â phob plentyn a pherson ifanc, gydag ADY. Ystyriwch yr ystod oedran 0 – 25 fel mae'n berthnasol i'ch gwaith.

Y penawdau a awgrymir yw;

a) Diffinio ac adnabod ADY
b) Diffinio ac adnabod Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)

c) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
d) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau
e) Cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY
f) Dyletswydd i baratoi Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Yn cynnwys y ddyletswydd ar ysgolion, colegau addysg bellach ac awdurdodau lleol (ALl).
g) Plant o dan oedran ysgol gorfodol – dyletswydd ALl i gynnal CDU
h) Plant dros oedran ysgol gorfodol - dyletswydd ALl i gynnal CDU
i) Pobl Ifanc mewn coleg addysg bellach – dyletswydd ar y coleg ac ALl i gynnal CDU
j) Pobl ifanc nad ydynt mewn ysgol a gynhelir neu goleg addysg bellach – Dyletswyddau ar ALl
k) Cynnwys IDP
    i. ADY Adran 2A
    ii. DDdY Adran 2B gan gynnwys canlyniadau
    iii. DDdY Adran 2C i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG Adran
    iv. Lleoliad addysg Adran 2D
    v. Darpariaeth yn y Gymraeg
l) Plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru ond yn cael eu haddysgu yn Lloegr
m) Plant a phobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)
n) Plant a phobl ifanc Dewisol Addysgwyd yn y Cartref a Phlentyn / plant sy'n derbyn gofal (plant sy'n derbyn gofal)
o) Rhoi'r gorau i gadw IDP
p) Plant a phobl ifanc heb alluedd meddyliol
q) Pontio'r ddarpariaeth AAA i ADY
r) Gweithdrefnau a phwerau'r Tribiwnlys

Mae gennym ddiddordeb hefyd yn eich sylwadau ar;

1) Statws y Cod ADY a'r cydadwaith rhwng y Ddeddf ADY, y Rheoliadau ADY a'r Cod ADY wrth wneud penderfyniadau a chymhwyso'r gyfraith.
2) Unrhyw gamgymharu ymddangosiadol rhwng y Ddeddf ADY a'r Cod ADY, neu unrhyw ddryswch mewn perthynas ag ystyr y Cod ADY.
3) Unrhyw sylwadau eraill sy'n disgyn y tu allan i'r penawdau a'r materion a godwyd uchod

Dychwelwch eich ymateb i AdolygiadDeddfwriaethADY@llyw.cymru erbyn 31 Mawrth 2025.

Yn y cyfamser, mae swyddogion polisi ar gael i gwrdd â chi os hoffech drafod y cais hwn.

Yn gywir

Hannah Wharf
Dirprwy Gyfarwyddwr Cymorth i Ddysgwyr